Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Ionawr 2020

**Crynodeb o fasnach cig coch y DU yn ystod 10 mis cyntaf 2019.**

## CIG EIDION A CHIG LLO

| Masnach Cig Eidion a Chig Llo Ion - Hyd (newid o'r naill flwyddyn i'r llall) |
|---|
| ALLFORION +22.6% |
| MEWNFORION -14.8% |

Mae ystadegau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn dangos fod 110,900 tunnell o gig eidion a chig llo wedi cael ei allforio o'r DU yn y cyfnod o fis Ionawr tan fis Hydref 2019 - sef 22.6% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2018. Iwerddon oedd y brif gyrchfan o hyd ar gyfer allforion cig eidion; derbyniodd 30.9% o'r holl allforion, sef cynnydd o 14.1%. Roedd y cynnydd mwyaf yn 2019 yn yr allforion i'r Iseldiroedd (+4,943 tunnell), a chafwyd cynnydd sylweddol hefyd, o 2,993 tunnell, i Hong Kong. Mae adroddiadau'n awgrymu taw cynnydd yn y cynnyrch yn y DU oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd mewn allforion i'r prif gyrchfannau rhwng Ionawr a Hydref 2019. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol o ran cyfaint, ni chafwyd yr un fath o gynnydd yng ngwerth yr allforion cig eidion, sef cynnydd o 6.6% i £380.1 miliwn. O'r holl gig eidion a chig llo a allforiwyd yn ystod y flwyddyn hyd at fis Hydref, roedd 82% o'r allforion i farchnadoedd yn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Cafwyd cynnydd o 9,369 tunnell yn yr allforion i wledydd y tu allan i'r UE, mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol.

Yn ôl ystadegau HMRC, cafodd 35,491 tunnell (neu 14.8%) yn llai o gig eidion (ffres/wedi ei rewi) ei fewnforio i'r DU rhwng Ionawr a Hydref 2019, sy'n golygu cyfanswm o 204,111 tunnell ar gyfer y cyfnod. Iwerddon oedd prif allforiwr cig eidion i'r DU o hyd ac roedd yn gyfrifol am 77.1% o'r holl fewnforion cig eidion, sef cynnydd o 6.4% mewn cymhariaeth â'r cyfnod yn 2018. Fodd bynnag, mewnforiodd Iwerddon 8.4% (neu 14,370 tunnell) yn llai i'r DU, a chafwyd gostyngiad o 1,965 tunnell yn y mewnforion o Wlad Pwyl.

## CIG DEFAID

| Masnach Cig Defaid Ion - Hyd (newid o'r naill flwyddyn i'r llall) |
|---|
| ALLFORION +18.2% |
| MEWNFORION -20.4% |


Roedd cyfanswm y cig defaid a allforiwyd o'r DU rhwng misoedd Ionawr a Hydref 2019 yn 77,338 tunnell, sef 18.2%, (neu 11,920 tunnell) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Allforiodd y DU 10,855 tunnell yn ychwanegol i'r UE yn ystod y cyfnod hwn mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl, gan ddod â chyfran marchnad yr UE i bron 95%. Roedd allforion i Ffrainc yn cyfrif am 39.4% o'r holl allforion yn ystod y cyfnod, gyda chynnydd o 8.8% (2,473 tunnell) yn yr allforion i Ffrainc ei hun. Parhaodd y twf yn yr allforion i'r Almaen, gyda chynnydd o 4,733 tunnell rhwng Ionawr a Hydref 2019. Cynyddu hefyd wnaeth y fasnach â'r Dwyrain Canol. Anfonwyd 1,410 tunnell, sef 1,211 tunnell yn fwy na'r llynedd. O blith y gwledydd hyn, i'r Iorddonen y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn allforion (+881 tunnell), sef 72.8% o'r holl allforion i'r Dwyrain Canol. Yn y flwyddyn hyd at fis Hydref, roedd gwerth yr allforion cig defaid yn £322.2 miliwn, sef 8.8% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl.


Rhwng misoedd Ionawr a Hydref, mewnforiwyd 20.4% (neu 13,382 tunnell) yn llai o gig defaid (ffres/wedi ei rewi) gan roi cyfanswm o 52,285 tunnell. Seland Newydd oedd y prif allforiwr cig defaid i'r DU o hyd; roedd yn gyfrifol am 63% o'r holl fewnforion hyd at fis Hydref. Yn ystod y cyfnod hwn, fodd bynnag, cafodd 11,057 tunnell (neu 25.1%) yn llai o gig defaid ei allforio o Seland Newydd i'r DU – yn rhannol am fod Seland Newydd yn anfon cig defaid i wledydd eraill, fel Tsieina, sydd â galw mawr am brotein ar hyn o bryd oherwydd Clwy Asiaidd y Moch. Roedd mewnforion o Awstralia hefyd yn 25.6% yn llai oherwydd y sychdwr mawr yno. Rhagwelir y bydd mewnforion yn dal i fod yn ddigyffro oherwydd prinder cyflenwad yn fyd-eang a'r prisiau uchel.

## CIG MOCH

| Masnach Cig Moch Ion - Hyd (newid o'r naill flwyddyn i'r llall) |
|---|
| ALLFORION +12.2% |
| MEWNFORION -0.1% |

Roedd allforion porc o'r DU rhwng misoedd Ionawr a Hydref 2019 yn 203,895 tunnell, sef cynnydd sylweddol o 12.2% ar y flwyddyn flaenorol. Digwyddodd y cynnydd mewn allforion ochr yn ochr â chynnydd yn y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod hwn, sef 2.5% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn dilyn galw cryf am borc wedi ei fewnforio ar draws Asia oherwydd Clwy Asiaidd y Moch, derbyniodd Tsieina 31,053 tunnell ychwanegol yn ystod y cyfnod dan sylw - sef 96.4% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd Tsieina yn gyfrifol am 31.0% o'r holl allforion porc yn ystod y cyfnod hwn (i fyny o 17.7% yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2018). Parhaodd cyfanswm y mewnforion porc i'r DU yn ystod y cyfnod yn weddol sefydlog (0.1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol), gyda lleihad o 12.2% yn y mewnforion o Ddenmarc.





## GWARTHEG


Roedd y pris cyfartalog am wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 190.9c/kg yn yr wythnos yn diweddu 04 Ionawr - sef 7.3c yn is na'r llynedd, ond roedd gwelliant pellach o 0.9c o'r naill wythnos i'r llall. Ar hyn o bryd mae'r pris pwysau byw yn 4.2c yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 195.1c/kg). Yn yr wythnos yn diweddu 04 Ionawr, gostyngodd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob categori o wartheg dethol. Roedd y gostyngiad mwyaf, o 6.6c i 302.8c/kg, ar gyfer teirw ifainc, a gostyngodd prisiau heffrod 3.4c i 327.8c/kg. Roedd prisiau bustych yn 326.0c/kg (4.7c yn llai na'r wythnos flaenorol) ac erbyn hyn maent yn 23.9c yn is nag yn 2018.

Lladdwyd 257,500 o wartheg ym mis Tachwedd, sef 2.8% yn llai na'r flwyddyn flaenorol a 6.3% yn llai nag ym mis Hydref, pan roedd y nifer a laddwyd yn arbennig o uchel. Lladdwyd 4.4% yn llai o wartheg dethol (cyfanswm o 178,200) yn ystod y mis nag yn y mis blaenorol, a 2.1% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. O fewn y cyfanswm hwn, lladdwyd 93,000 o fustych (1.4% yn llai na'r flwyddyn flaenorol); 71,500 o heffrod (- 1.7%) a 13,600 o deirw ifainc (- 8.2%). Roedd cyfanswm yr holl wartheg dethol a laddwyd yn ystod 2019 yn 0.9% yn fwy na'r llynedd.





## DEFAID

Roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw cyfartalog mewn arwerthiannau da byw yng Nghymru yn dal i fod yn uwch na'r pris tymhorol arferol; yn ystod wythnos olaf 2019, roedd yn 209.2c/kg. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 04 Ionawr, roedd yr SQQ yn 205.0c/kg - sef 15.4c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, a 29.3c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 175.5c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru hefyd yn gryf yn ystod y gwyliau. Roeddynt yn £69.90 yn yr wythnos yn diweddu 04 Ionawr, sef £19.30 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd a £5.10 yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 450.1c/kg yn yr wythnos yn diweddu 04 Ionawr – 18.3c yn is na'r flwyddyn flaenorol.





Lladdwyd 1.37miliwn o ddefaid yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Tachwedd, sef 5.7% yn llai nag ym mis Hydref, ond rhywbeth yn debyg i'r mis cyfatebol y llynedd (+0.2%). Ŵyn dethol oedd yn cyfrif am hyd at 90% o'r cyfanswm a laddwyd yn ystod y mis, gyda 13.4% yn llai o famogiaid a hyrddod difa yn cael eu lladd nag yn y mis blaenorol. Wrth edrych ar y cyfnod o fis Mai i fis Tachwedd eleni, gwelir bod 8.0 miliwn o ŵyn dethol wedi cael eu lladd, sef 3.8% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid yn ystod y mis nag yn y mis cyfatebol yn 2018 am fod y carcasau ychydig yn drymach – carcasau ŵyn dethol (+0.4kg) a charcasau mamogiaid (+0.2kg).




## MOCH

Roedd y pris ar gyfer yr holl foch (manyleb-UE) ym Mhrydain yn 163.8c/kg yn yr wythnos yn diweddu 21 Rhagfyr, sef ychydig yn uwch na'r wythnos flaenorol (+0.4p), a 17.2c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2018. Wrth i brisiau barhau i godi'n uwch na'r pris tymhorol arferol oddi ar fis Medi, mae'r pris ar hyn o bryd yn 17.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 146.4c/kg). Nid oedd y pris cyfartalog ar gyfer perchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 21 Rhagfyr ar gael. Roedd pris cyfartalog perchyll 7kg yn £41.48, sef 11.7% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach.




Lladdwyd 983,600 o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Tachwedd, sef 4.0% yn llai nag ym mis Hydref a 0.9% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Ym mis Hydref lladdwyd y nifer fwyaf o foch er mis Hydref 2015. Hyd yma eleni, lladdwyd 10.0miliwn o foch heb fagu, sef 1.1% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cynhyrchwyd 2.6% yn fwy o borc oherwydd cafodd mwy o foch eu lladd, ac roedd carcasau'r moch heb fagu yn drymach (+1.5kg) – ac roedd cyfanswm y cynnyrch yn 2019 (hyd at fis Tachwedd) yn 2.5% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl.